# Adolygu newyddion a materion cyfoes y BBC

Cylch gorchwyl

**CYLCH GORCHWYL:**

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Mawrth 2019

# 1. Cylch gorchwyl

## Rydym yn cynnal adolygiad o allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC ar y teledu, ar y radio ac ar-lein

1.1 Mae'r ffordd rydym yn defnyddio ac yn ymgysylltu â newyddion yn newid. I lawer o bobl, mae'r gymysgedd draddodiadol o fwletinau teledu a radio – sy’n rhoi crynodeb ddyddiol, awdurdodol o'r digwyddiadau mawr i gynulleidfaoedd – wedi cael ei disodli gan amgylchedd newyddion llawer mwy cymhleth, lle mae amrywiaeth eang o ffynonellau ar-lein yn dehongli straeon newyddion drwy gydol y dydd.

1.2 Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae rôl y BBC fel darparwr newyddion a materion cyfoes diduedd ar yr holl lwyfannau yn bwysicach nag erioed. Yr her mae’r BBC yn ei hwynebu yw parhau’n ffynhonnell newyddion ddibynadwy, sy’n darparu cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer yr holl gynulleidfaoedd a gwrandawyr. Bydd ein hadolygiad yn edrych ar sut mae BBC News yn gweithredu yn yr hinsawdd yma, gyda'r bwriad o ddeall i ba raddau mae’r BBC yn addasu i gyflawni'r her honno.

1.3 Mae'r adolygiad hwn yn rhan o’n gwaith rheoleiddiol parhaus o graffu ar ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes y BBC, a dylai gael ei ystyried yn rhan o’r portffolio ehangach o waith rydym yn ei wneud yn y maes hwn. Bydd canfyddiadau’r adolygiad hwn yn rhoi sail i’n hasesiad blynyddol nesaf o berfformiad y BBC, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2019.

### Rôl y BBC mewn perthynas â newyddion

1.4 Mae Siarter y BBC yn nodi Cenhadaeth y Gorfforaeth – sef gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy’n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu – a’i Dibenion Cyhoeddus.

1.5 Mae'r Diben Cyhoeddus cyntaf yn nodi bod rhaid i’r BBC “**ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o’u cwmpas**”. Mae’r Siarter yn mynd ymlaen i ddisgrifio sut dylai'r BBC gyflawni'r Diben Cyhoeddus hwn:

> *"dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys arddel y safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gwybodus.."*[1]

1.6 Mae bod yn unigryw yn rhan greiddiol o Siarter a Chytundeb y BBC. Disgwylir i'r BBC ddarparu cynnwys creadigol ac unigryw o ansawdd uchel ar draws ei holl allbwn a'i wasanaethau,[2] gan gynnwys ei ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes ar bob llwyfan. Mewn geiriau eraill, dylai'r BBC fod yn creu rhaglenni a gwasanaethau sydd – ar y cyfan – yn wahanol iawn i rai darlledwyr a darparwyr tebyg.[3]

## Pam ydym yn cynnal yr adolygiad presennol

1.7 Gwaith Ofcom yw rheoleiddio'r BBC i sicrhau ei fod yn cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus ar ran cynulleidfaoedd y DU. Un ffordd o wneud hyn yw cynnal adolygiadau manwl sy'n "mynd i'r afael ag unrhyw bryder penodol" rydym yn ei ganfod.[4]

1.8 Mae ein Trwydded Weithredu yn pennu'r gofynion y mae'n rhaid i'r BBC eu bodloni er mwyn cyflawni'r Diben Cyhoeddus cyntaf. Rydym yn disgwyl i'r BBC wneud y canlynol:

> *a) "darparu lefel sylweddol o newyddion, materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol ar draws ei hystod lawn o wasanaethau a llwyfannau, yn ogystal ag ymdrechu i gyrraedd ac i wasanaethu pob cynulleidfa gyda'r allbwn hwn;*
>
> *b) ceisio cynnal ei darpariaeth o themâu rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ei rhaglenni ffeithiol, newyddion a materion cyfoes, er mwyn galluogi cynulleidfaoedd i ddatblygu dealltwriaeth helaeth o'r hyn sy'n digwydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn y byd ehangach;*
>
> *c) parhau i ddarparu allbwn ffeithiol, newyddion, materion cyfoes a gwybodaeth ddibynadwy y mae modd ymddiried ynddo, a hynny yn unol â'r safonau golygyddol uchaf;*

[1] Erthygl 6(1) o Siarter y BBC.
[2] Erthygl 6(3) o Siarter y BBC.
[3] Paragraff 1 o Atodlen 2 i'r Cytundeb.
[4] Erthygl 51(3) o Siarter y BBC.

> *d) sicrhau ei bod yn darparu dolenni digonol at ddeunydd trydydd parti ar-lein, yn enwedig yng nghyswllt ei straeon newyddion, er mwyn darparu cyfoeth o wybodaeth i'w defnyddwyr a chefnogi darparwyr eraill yn y diwydiant ar yr un pryd. Wrth wneud hynny, dylai'r BBC ystyried y dolenni mae'n eu cynnig yn ofalus."*[5]

1.9 Byddwn yn adolygu amodau'r drwydded drwy gydol cyfnod y Siarter ac yn eu diwygio yn ddibynnol ar berfformiad y BBC.

1.10 Yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y BBC ym mis Hydref 2018, daethom i'r casgliad bod y BBC yn perfformio'n dda mewn sawl agwedd gysylltiedig â'r Diben Cyhoeddus cyntaf. Pan ofynnwyd i gynulleidfaoedd fynegi barn ar wahanol agweddau ar newyddion a materion cyfoes y BBC, dywedodd fwy nag wyth o bob deg wrthym eu bod yn gwerthfawrogi newyddiaduraeth ymchwiliol y BBC a'i dadansoddiad o ddigwyddiadau. Dywedodd fwy na saith o bob deg wrthym eu bod yn clodfori BBC News am ansawdd, cywirdeb a dibynadwyedd ei gynnwys newyddion.

1.11 Fodd bynnag, roedd rhai meysydd a oedd yn peri pryder. Roedd cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr is i'r BBC am ddyfnder ei dadansoddiadau, ac am ddarparu amrywiaeth o gynnwys nad yw ar gael fel arall, nag am nifer o agweddau eraill. Mae cynulleidfaoedd yn llai tebygol o sgorio newyddion teledu'r BBC yn uchel am eu helpu nhw i gyrraedd penderfyniad, o gymharu â'r rheiny oedd o'r farn bod y newyddion o ansawdd da ac mae ymchwil blaenorol yn dangos tueddiadau tebyg.

1.12 Yn ein hadroddiad blynyddol, fe wnaethom ystyried cyfrifoldeb penodol y BBC fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus – a nodir yn y Siarter – i helpu pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Mae ein hymchwil wedi datgelu bod nifer o bobl yn poeni'n gyffredinol am ba mor ddibynadwy yw cynnwys yn oes y 'newyddion ffug', ac o ran goblygiadau negyddol gwybodaeth gamarweiniol o ran ymddiriedaeth y cyhoedd a phrosesau democrataidd.[6] Mae bron i draean (29%) o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n oedolion yn mynegi pryderon am wybodaeth gamarweiniol ar-lein.[7]

1.13 Mae gan y BBC rôl ganolog o ran darparu newyddion diduedd a dibynadwy. Ond mae ein hymchwil wedi dangos bod cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr is i ddidueddrwydd newyddion teledu a radio'r BBC nag agweddau eraill ar ei hallbwn newyddion.[8]

1.14 Am y rhesymau hyn, rydym yn credu ei bod yn briodol cynnal adolygiad er mwyn ymchwilio'n fanwl i sut mae'r BBC yn cyflawni'r Diben Cyhoeddus cyntaf.

---

[5] Y Drwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, paragraff 1:24:1-4
[6] Ofcom Newidiadau ym Myd Newyddion: Ymchwil Ansoddol, tt. 48-56.
[7] Ofcom/ICO Profiad defnyddwyr y rhyngrwyd o niwed ar-lein: crynodeb o ymchwil yr arolwg, t.8.
[8] Ofcom, Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2018, tt.91-95.

## Ffocws ein hadolygiad

1.15 Nod yr adolygiad hwn yw deall sut mae cynulleidfaoedd gwahanol yn ymgysylltu â newyddion a materion cyfoes y BBC, a'r rôl y mae'n ei chwarae o ran cael gafael ar newyddion ehangach ac yn yr amgylchedd newyddion yn fwy cyffredinol. Byddwn yn gofyn i gynulleidfaoedd am eu barn ynghylch darpariaeth newyddion a materion cyfoes y BBC ar y teledu, ar y radio ac ar-lein. Rydym yn bwriadu canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

i) **Perthnasedd:** Byddwn yn ystyried i ba raddau mae'r BBC yn gwasanaethu pob cynulleidfa yn effeithiol, gan gynnwys y rheini sydd fel arfer yn ymgysylltu llai â'i hallbwn – a'r rhesymau dros hynny. Byddwn yn edrych ar rôl y BBC o ran helpu pobl i ddeall y byd o'u cwmpas a sut maen nhw'n ymwneud â'i gynnwys. Byddwn hefyd yn ystyried pa mor dda yw sefyllfa'r BBC ar gyfer parhau i wasanaethu cynulleidfaoedd yn y dyfodol, mewn tirwedd newyddion sy'n newid.

ii) **Natur unigryw ac ansawdd:** Byddwn yn edrych ar safbwyntiau cynulleidfaoedd ynghylch sut mae'r BBC yn adrodd ar straeon cymhleth a heriol, gan gynnal yr ansawdd y mae cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi. Byddwn yn edrych ar ba mor amrywiol a dwfn yw dadansoddiadau'r BBC o ran newyddion a materion cyfoes ar draws ei holl lwyfannau, a sut mae hyn yn cymharu â darparwyr newyddion eraill yn y DU.

iii) **Ymddiriedaeth**: Byddwn yn asesu sut mae safbwyntiau pobl ynghylch cywirdeb a didueddrwydd y BBC yn dylanwadu ar faint maent yn ymddiried ynddi. Ni fydd yr adolygiad hwn yn asesu cydymffurfiad ffurfiol y BBC â gofynion 'didueddrwydd dyladwy'[9] a 'chywirdeb dyladwy' Cod Darlledu Ofcom. Ers i ni ysgwyddo ein dyletswyddau presennol ym mis Ebrill 2017, nid ydym wedi gweld bod y BBC yn torri gofynion 'didueddrwydd dyladwy' Cod Darlledu Ofcom.[10] Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn awgrymu bod pobl yn rhoi sgôr is i ddidueddrwydd newyddion y BBC na'i gywirdeb neu ei ansawdd.[11] Byddwn yn ceisio deall yn well pa mor bwysig yw didueddrwydd y BBC i'r gynulleidfa; p'un ai a ydynt yn fodlon bod yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio i sicrhau didueddrwydd dyladwy ar hyn o bryd yn effeithiol; a sut mae agweddau cynulleidfaoedd tuag at ddidueddrwydd, cywirdeb ac ymddiriedaeth yn berthnasol i'w gilydd.

## Sut byddwn yn cynnal ein hadolygiad

1.16 Er mwyn deall i ba raddau mae'r BBC yn addasu yn unol â'r amgylchedd newyddion sy'n newid, byddwn yn cynnal ymchwil i fapio rôl ei darpariaeth

[9] Fe wnaethom egluro yn y Cod Darlledu bod "dyladwy" yn oleddfiad pwysig i'r cysyniad o ddidueddrwydd. Mae didueddrwydd ei hun yn golygu peidio â ffafrio un ochr yn fwy nag un arall. Mae "dyladwy" yn golygu digonol neu briodol i destun a natur y rhaglen. Felly, nid yw "didueddrwydd dyladwy" yn golygu bod rhaid rhoi'r un amser ar gyfer pob barn, neu fod rhaid cynrychioli pob dadl a phob agwedd ar bob dadl.

[10]

[11] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC, t.25; Ofcom, Cael gafael ar newyddion yn y DU: adroddiad 2018, t.91.

newyddion ar-lein. Fel rhan o'n hadolygiad, byddwn yn edrych ar y cyd-destun ehangach y mae newyddion ar-lein y BBC yn gweithredu ynddo, a sut mae'r BBC yn gwneud ei chynnwys yn wahanol i gynnwys darparwyr eraill, gan gynnwys Papurau Newydd.

1.17 Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau dadansoddol ac ymchwil i ddeall sut mae defnyddwyr yn cael mynediad at wahanol straeon sy'n cael eu cyflwyno gan BBC ar-lein – sy'n amrywio o gofnodi digwyddiadau newyddion mawr i newyddion adloniant ac enwogion. Byddwn yn edrych ar 'daith newyddion' pobl – sut maen nhw'n defnyddio gwefan newyddion y BBC ac yn symud rhyngddi a gwefannau newyddion eraill, a pha mor rhwydd maen nhw'n gwneud hynny. Byddwn yn ystyried sut mae'r BBC yn gweithio gyda darparwyr newyddion eraill wrth ganfod straeon ar-lein a'u priodoli.[12] Byddwn hefyd yn edrych i weld a yw'r rheini sy'n defnyddio BBC ar-lein yn credu bod ganddo fformat unigryw, cymysgedd o gynnwys, a gwybodaeth ddofn.

1.18 Byddwn yn comisiynu cyfres o ymchwil newydd a manwl i gynulleidfaoedd, gan ddefnyddio amryw o fethodolegau er mwyn creu darlun cynhwysfawr o'r hyn sydd ei eisiau ar ddefnyddwyr a chynulleidfaoedd y DU gan y BBC. Bydd hyn yn helpu i egluro sut, a pham, mae pobl yn cael mynediad at deledu, radio a chynnwys ar-lein.

1.19 Bydd y gwaith hwn yn cynnwys cynnal ymchwil ansoddol gyda gwahanol grwpiau o'r gynulleidfa ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU. Byddwn yn siarad â'r rheini sy'n ymgysylltu â'r BBC yn rheolaidd, a'r rheini nad ydynt yn gwneud hynny. Byddwn yn edrych ar y rhesymau y tu ôl i hyn er mwyn deall a allai'r BBC wneud mwy i gyrraedd y cynulleidfaoedd mwy anodd eu cyrraedd, gan gynnwys pobl ifanc.

1.20 Byddwn yn ystyried darpariaeth newyddion y BBC ar draws ystod o straeon cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn defnyddio'r ymchwil hwn i sefydlu a yw pobl yn teimlo bod ganddynt wybodaeth dda a pham.

1.21 Byddwn yn gofyn i gynulleidfaoedd am gynnwys newyddion, gan y BBC a darparwyr eraill, er mwyn canfod y nodweddion sy'n eu helpu i ddeall materion yn well. Byddwn yn gofyn iddynt am eu hasesiad o ansawdd rhaglenni materion cyfoes y BBC, a pha mor fanwl yw'r dadansoddiad, gan gynnwys meysydd fel newyddiaduraeth ymchwiliol.

1.22 Mae gan Ofcom eisoes gronfa ddata ymchwil ynghylch arferion pobl o ran cael gafael ar newyddion. Byddwn yn defnyddio ein hymchwil presennol a pharhaus i ddadansoddi agweddau cynulleidfaoedd tuag at ddarpariaeth newyddion y BBC,

---

[12] Mae'r Drwydded Weithredu yn ei gwneud yn ofynnol bod y BBC yn "sicrhau ei bod yn darparu dolenni digonol at ddeunydd trydydd parti ar-lein, yn enwedig yng nghyswllt ei straeon newyddion, er mwyn darparu cyfoeth o wybodaeth i'w ddefnyddwyr a chefnogi darparwyr eraill yn y diwydiant ar yr un pryd. Wrth wneud hynny, dylai'r BBC ystyried y dolenni mae'n eu cynnig yn ofalus a "sicrhau ei fod [BBC Ar-lein] yn darparu digon o ddolenni i ddeunyddiau sy'n cael eu darparu gan drydydd partïon."

gan ei chymharu â darpariaeth darparwyr newyddion eraill. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall beth yw safbwyntiau cynulleidfaoedd ar newyddion y BBC mewn meysydd fel didueddrwydd, cywirdeb ac ymddiriedaeth. Byddwn hefyd yn archwilio i weld a yw agweddau tuag at faterion fel ymddiriedaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol grwpiau.

1.23 Mewn ymchwil blaenorol, mae pobl wedi codi pryderon am ragfarn bosibl y BBC ar ddwy ochr y sbectrwm gwleidyddol.[13] Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y cwynion rydym wedi'u cael: yn ystod ein blwyddyn gyntaf yn rheoleiddio'r BBC, roedd y math mwyaf cyffredin o gŵyn am ei gynnwys yn ymwneud â didueddrwydd.[14] Byddwn yn ymchwilio'r rhesymau y tu ôl i hyn, ac yn edrych ar safbwyntiau cynulleidfaoedd ar y technegau mae'r BBC yn eu defnyddio i sicrhau didueddrwydd dyladwy yn ei raglenni.

1.24 Yn ogystal â siarad yn helaeth â chynulleidfaoedd, byddwn yn ymgysylltu â'r diwydiant â phartïon eraill â buddiant. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein canfyddiadau yn ystod tymor yr hydref 2019, a bydd y rhain yn rhoi sail i'n gwaith o reoleiddio'r BBC.

[13] Ofcom Newidiadau ym Myd Newyddion: Ymchwil Ansoddol, t,47.
[14] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC, t.48